



Afallon 20G – CA3/4

Tasg 1: Y prif gymeriad

Mr Solomon Argentum

Gair Lladin sy'n golygu 'arian' yw 'Argentum'. Mae'r gair Cymraeg wedi dod o'r gair Lladin, ac roedden ni'n arfer defnyddio'r gair fel 'ariant'. Yn y Mabinogi, mae cyfeiriad at y ffaith fod Bendigeidfran wedi rhoi 'llathen aryant' yn anrheg i Fatholwch. Sylwch ar eiriau eraill sydd wedi colli'r 't' yn Gymraeg:

ugain > viginti (Lladin)

cân > canticwm

Pam mae Gwyn Thomas wedi rhoi'r enw hwn ar y prif gymeriad, yn eich barn chi?

Beth yw arwyddocâd Solomon? Beth yw arwyddocâd Argentum?



Afallon 20G – CA3/4

Tasg 2: Ystyr y teitl

Afallon 20G

Mae Afallon yn enw ar ynys chwedlonol yn hanes y Brenin Arthur. Dyma ymgorfforiad o'r lle perffaith. Avalon yw enw'r Saeson arno, a daw'r enw o'r gair 'afal'. Yn ôl yr hanes, dyma'r ynys yr aeth Arthur ati ar ddiwedd ei oes. Yn ôl rhai, Ynys Afallon yw Ynys Enlli ym Mhen Llŷn.

Ymchwiliwch i'r cysylltiad rhwng Ynys Enlli ac Ynys Afallon a Phen Llŷn.

Pam mae Gwyn Thomas wedi defnyddio'r teitl hwn ar y stori, yn eich barn chi?



Afallon 20G – CA3/4

Tasg 3: Ysgrifennu creadigol

'Ac ar yr ail ddydd o'r ail fis yn yr ugeinfed flwyddyn ar ôl i Ddynion Lanio ar y Lleuad.' t. 49

Erbyn heddiw, rydyn ni'n cyfri'r blynyddoedd yn ôl yr amser sydd wedi bod ers geni Iesu Grist. Cyn hynny, roedden nhw'n cyfri'r blynyddoedd yn ôl teyrnasiad brenhinoedd neu ddyddiadau pwysig eraill.

Edrychwch yn Nhestament Newydd y Beibl i weld sut mae Luc, Pennod 3 yn cychwyn. Mae paragraff Gwyn Thomas yn adleisio hyn.

TASG

Ysgrifennwch baragraff creadigol gan ddefnyddio arddull debyg i un Gwyn Thomas. Meddyliwch am ba ddigwyddiad pwysig y gallwch gyfeirio ato.



Afallon 20G – CA3/4

Tasg 4: Cysylltu ansoddeiriau

Sylwch ar y frawddeg sy'n dechrau'r paragraff ar waelod t. 50.

'...i'w gosod yn hwylus symudadwy.'

Mae modd rhoi dau ansoddair at ei gilydd, ond heb ddefnyddio 'a' fel cysylltair.

Fersiwn 1: Mae'r ferch yn brysur a gweithgar.

Fersiwn 2: Mae'r ferch yn brysur weithgar.

Os ydyn ni'n defnyddio fersiwn 2, mae'n bwysig cofio treiglo'r ail ansoddair yn feddal.

TASG:

Meddyliwch am bum brawddeg sy'n cyfuno ansoddeiriau fel fersiwn 2.

e.e Roedd Sioned yn **gyson dda** yn ei gwaith.



Afallon 20G – CA3/4

Tasg 5: Ansoddeiriau newydd

Mae Gwyn Thomas yn arbenigwr ar greu ansoddeiriau gwreiddiol o enwau cyffredin, e.e. ‘... fe agorwyd y pyrth a llifodd y bobloedd i mewn yn **drolïog**.’

TASG:

Meddylwch am bum enw, a lluniwch ansoddeiriau newydd iddyn nhw, fel y gwnaeth Gwyn Thomas, er enghraifft troli / troliog.

Cofiwch y gallwch ddefnyddio terfyniadau ansoddeiriol arferol fel –aidd, -og, -edig, -us, -ol.



Afallon 20G – CA3/4

Tasg 6: Gwaith trafod

‘Ond perchnogion newydd sydd, a chwsmeriaid newydd sydd...’

Yma, mae Gwyn Thomas yn adleisio cerdd y bardd Ceiriog.

Aros mae'r mynyddau mawr,
Rhuo trostynt mae y gwynt;
Clywir eto gyda 'r wawr,
Gân bugeiliaid megis cynt.
Eto tyf y llygad dydd,
O gylch traed y graig a'r bryn;
Ond bugeiliaid newydd sydd
Ar yr hen fynyddoedd hyn.

Ar arferion Cymru gynt,
Newid ddaeth o rod i rod;
Mae cenhedlaeth wedi mynd,
A chenhedlaeth wedi dod.
Wedi oes dymhestlog hir,
Alun Mabon mwy nid yw;
Ond mae'r heniaith yn y tir,
A'r alawon hen yn fyw.

Ceiriog



Beth yn eich barn chi mae'r bardd yn ei feddwl wrth ddweud:

“Ond bugeiliaid newydd sydd

Ar yr hen fynyddoedd hyn”?

Ydy hi'n bosib defnyddio'r dyfyniad am sefyllfaoedd eraill, heblaw am fugail a mynydd?



Afallon 20G – CA3/4

Tasg 7: Llunio beddargraff

Ar ddiwedd y stori, mae'r awdur yn rhestru geiriau oedd wedi cael eu rhoi ar gerrig beddi'r cymeriadau.



Un o'r rhai enwocaf yw beddargraff y comedïwr Spike Milligan, sef 'I told you I was ill'!!

TASG:

Ceisiwch feddwl am bum person neu anifail, ac ewch ati i lunio beddargraff byr iddyn nhw. Gallan nhw fod yn ddwys neu'n ddoniol.



Afallon 20G – CA3/4

Tasg 8: Trosiadau crefyddol

Mae llawer o drosiadau crefyddol i'w cael yn y stori hon:

- cysegr santeiddiolaf
- Arch y Cyfamod
- teml i Fasnach

Ewch ati i ymchwilio i ystyr a hanes y trosiadau hyn.

Mewn grŵp o 3, gall unigolyn o bob grŵp fod yn gyfrifol am ymchwilio i un trosiad, yna ei egluro i weddill y grŵp.

TASG:

Trafodwch ar lafar beth yw arwyddocâd hyn yn y stori.

Beth mae hyn yn ei ddweud amdanon ni fel pobl?




Afallon 20G – CA3/4

Tasg 9: Ysgrifennu stori

Mae hon yn stori fer sy'n seiliedig ar ffenomenon fodern, sef archfarchnadoedd yn cymryd lle siopau bychain.

TASG:

Defnyddiwch un o'r tri sbardun modern isod i fynd ati i ysgrifennu stori fer.





Afallon 20G – CA3/4

Tasg 10: Ysgrifennu erthygl

Mae llawer o sôn wedi bod yn ddiweddar am archfarchnadoedd yn agor ac yn gorfodi siopau lleol i gau.

TASG:

Ysgrifennwch erthygl bapur newydd yn trafod y sefyllfa yn eich ardal chi.

Oes archfarchnad fawr wedi agor y tu allan i'r dref?

Ydy'r dref yn dal i ffynnu, neu a oes siopau wedi gorfod cau?